# Y BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Llun, 22 Ionawr 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
H.A.L. Evans, L.D. Evans, D.M. Jenkins, L.M. Stephens, J. Tremlett, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, G. Davies a C.A. Campbell

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr: J.S. Edmunds, D.M. Cundy, S.L. Davies a J.G. Prosser

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
M. James, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
W. Walters, Cyarfwyddwr Adfywio a Pholisi
R. Dawson, Pennaeth Gwasanaethau Integredig
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
D. Hockenhull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata
S. Watkins, Rheolwr Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 am - 10.35 am**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**3. COFNODION - 18 RHAGFYR 2017**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2017 yn gofnod cywir.**

**4. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

**5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

**6. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR**

Rhoddodd y Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad monitro'r gyllideb refeniw a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch sefyllfa'r gyllideb fel yr oedd ar 31 Hydref 2017.

Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad yn rhagweld y byddai gorwariant diwedd blwyddyn o £685k ar gyllideb refeniw net yr Awdurdod ac y byddai gorwariant o £2,263k ar lefel adrannol. O ran y Cyfrif Refeniw Tai, rhagwelwyd y byddai'r gyllideb wedi'i mantoli ar ddiwedd y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**6.1. bod adroddiad monitro'r gyllideb yn cael ei dderbyn;**

**6.2 bod y Prif Swyddogion a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn adolygu eu sefyllfaoedd cyllidebol yn feirniadol ac yn cymryd camau priodol i ddarparu eu gwasanaethau yn unol â'r cyllidebau a ddyrannwyd iddynt.**

## 7. DIWEDDARU RHAGLEN GYFALAF 2017-18

Rhoddodd y Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch gwariant y rhaglen gyfalaf yn erbyn cyllideb 2017/18 fel yr oedd ar 31 Hydref 2017. Byddai'r llithriant o £-4,095k yn ystod y flwyddyn yn cael ei gynnwys ym mlynyddoedd nesaf y rhaglen.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod adroddiad monitro'r gyllideb a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen gyfalaf, fel y manylir yn Atodiad A a B, yn cael ei dderbyn.**

## 8. SEFYDLU CWMNI MASNACHU AWDURDOD LLEOL AR GYFER LLINELL GOFAL A ELWIR YN LLESIANT DELTA WELLBEING'

Rhoddodd y Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a oedd yn amlinellu'r rhesymau dros sefydlu Cwmni Masnachu sy'n eiddo llwyr i'r Awdurdod Lleol ar gyfer Llinell Gofal, a elwir yn 'Llesiant Delta Wellbeing Cyf', a pha mor ymarferol fyddai hynny. Byddai'r cwmni'n gallu cyrraedd marchnadoedd a ffrydiau incwm ehangach o lawer na gwasanaeth presennol Llinell Gofal. Byddai'r argymhelliad yn yr adroddiad yn amodol ar gael ei gymeradwyo gan y Cyngor.

Wrth ymateb i gwestiwn, cytunwyd y dylai'r adroddiad gael ei ddiwygio cyn ei gyflwyno i'r Cyngor er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch sicrhau bod y cwmni arfaethedig yn cydymffurfio â gofynion Teckal.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 11.1, gofynnodd y Cynghorydd D.M. Cundy a ellid manteisio ar y cyfle, wrth greu'r cwmni newydd hwn, i newid y ffordd yr ymdrinnir â Gofal Oedolion drwy roi strwythur gyrfaol i Weithwyr yn y Sector Gofal Cymdeithasol sy'n seiliedig ar gyfuniad o brofiad, addysg a hyfforddiant parhaus, arholiadau ac arbenigedd a geir drwy "brofiadau yn y swydd" er mwyn i bobl ifanc, a phobl fwy aeddfed, gael gyrfa ddilys, flaengar a gwerth chweil gyda chyflog da yn y Sector Gofal Oedolion, pa un a yw hynny yng nghartrefi gofal yr Awdurdod, ym maes gofal cartref neu'n yrfa sy'n gysylltiedig â darpariaeth y GIG lle mae cyfleoedd pellach?

Ymatebodd y Cynghorydd J. Tremlett, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, fel a ganlyn:

Diolch i chi'r Cynghorydd Cundy, am eich cwestiwn. Yr ateb byr yw 'gellid', wrth gwrs. Mae cymwysterau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu diwygio yng Nghymru yn dilyn adolygiad. Bydd hyd at 20 o gymwysterau newydd yn cymryd lle'r rhai presennol. Bydd y cymwysterau newydd yn cael eu haddysgu o

fis Medi 2019 ymlaen, a bydd y tystysgrifau cyntaf yn cael eu cyflwyno yn 2020. Y corff dyfarnu yw consortiwm sy’n cynnwys City & Guilds a Chyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) a fydd yn cydweithio â Chymwysterau Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, GIG Cymru, athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr i gynllunio a darparu'r cymwysterau newydd hyn. Mae'r sector yn cynnwys nifer o wahanol yrfaoedd i ofalwyr, nid dim ond mewn cartrefi preswyl i oedolion, ond mewn ysbytai, ac ym meysydd gofal plant, gofal cartref, afiechyd meddwl ac anableddau corfforol. Bydd y cymwysterau hyn yn cael eu haddysgu i ddysgwyr 14 oed a hŷn ledled Cymru o Lefel 1 i 5. Byddant yn rhan o fframweithiau prentisiaethau hefyd. Mae datblygu a chefnogi ein gweithlu gofal cymdeithasol yn hanfodol ac mae cryn dipyn o weithgarwch yn yr adran yn canolbwyntio ar hyn i'n galluogi i ymateb i her genedlaethol, sef bod llai o bobl na'r hyn sydd ei angen arnom yn mynd i'r maes gwaith hwn a bod mwy a mwy ohonynt yn dewis gadael wrth i gyflogau mewn swyddi sy'n cystadlu â’r swyddi hyn, ac sy'n gofyn llai o bosibl, megis manwerthu, gynyddu i'r un lefel. Ar hyn o bryd, rydym yn gwneud yn well na'r rhan fwyaf o awdurdodau o ran recriwtio a chadw'r gweithlu hollbwysig hwn ond mae llawer i'w wneud o hyd. Yn gyntaf, rydym yn bwriadu datblygu strwythur gyrfaol gwell a mwy amlwg, sy'n golygu ei bod yn yrfa a ddewisir sy'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu a chamau dilyniant clir. Mae llawer o hyn yn digwydd eisoes ond mae angen rhoi cyhoeddusrwydd iddo a'i werthu i bobl sydd â diddordeb. Dros y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu cyflwyno ymgyrch cyhoeddusrwydd i hyrwyddo hyn ym mhob sector a chwalu unrhyw fythau sy'n bodoli. Mae llawer o waith wedi'i wneud i wella'r telerau a'r amodau ar draws y sector a dyma'r amser i roi cyhoeddusrwydd i hynny. Mae angen creu cysylltiadau â cholegau lleol a gwella’r cyngor ynghylch gyrfaoedd fel bod pobl ifanc alluog yn ystyried hyn yn ddewis ymarferol yn lle cyrsiau gradd gan fod llwybrau dilyniant proffesiynol i nyrsio a gwaith cymdeithasol. Rwy'n bwriadu dod â hyn ynghyd mewn strategaeth gyffredinol erbyn yr haf fel bod y ffactorau sy'n cefnogi'r gweithlu hwn – cyflog, cymorth, hyfforddiant a chyfleoedd gyrfa yn glir ac yn gydgysylltiedig.’

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**8.1 sefydlu Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol ar gyfer Llinell Gofal a elwir yn Llesiant Delta Wellbeing er mwyn creu incwm ychwanegol i'r Awdurdod a diogelu'r gwasanaeth presennol;**

**8.2 rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol sefydlu'r Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol, ei strwythurau llywodraethu a datblygu cynllun busnes manwl;**

**8.3 bod y Cwmni yn cael ei ymgorffori’n gwmni cyfyngedig ac mai’r Cyngor fyddai’r unig gyfranddaliwr;**

**8.4 bod Bwrdd y Cwmni yn paratoi ac yn cytuno ar Gynllun Busnes y Cwmni ac yna'n ei gyflwyno i'w gymeradwyo'n ffurfiol i Fwrdd Gweithredol yr Awdurdod cyn ei roi ar waith;**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR**

**8.5 bod costau sefydlu'r Cwmni yn cael eu hadennill (yn dilyn cytundeb y Bwrdd Gweithredol i lunio cwmni) drwy drefnu benthyciadau ar gyfradd llog masnachol i'w gymeradwyo gan y Cyngor Llawn dros gyfnod y cytunir arno yn y cynllun busnes manwl. Os na sefydlir y Cwmni, telir y costau gweithredu allan o arian wrth gefn;**

**8.6 cael cytundeb y Cyngor Llawn i warantu rhwymedigaethau pensiwn y staff a gyflogir gan y Cwmni.**

## 9. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 10. TREFNIADAU TRIN A GWAREDU GWASTRAFF YN Y DYFODOL.

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 9 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).**

Rhoddodd y Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a oedd yn crynhoi canfyddiadau'r achos busnes i greu Teckal* ar gyfer darparu trefniadau trin a gwaredu gwastraff yn y dyfodol yn y Sir, ac yn manylu ar y camau nesaf ar gyfer sefydlu'r cwmni.
[Darn o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd yw *Teckal' sy'n caniatáu i gynghorau ddarparu gwasanaethau drwy endidau a reolir yn allanol heb fod yn rhaid iddynt ddilyn y rheolau a'r gweithdrefnau ynghylch tendro cystadleuol].

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**10.1 cymeradwyo'r achos busnes ar gyfer sefydlu cwmni newydd sy'n cydymffurfio â gofynion Teckal a hynny ar gyfer gwasanaethau trin a gwaredu gwastraff yn y dyfodol (a reolir gan CWM ar hyn o bryd);**

**10.2 dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol sefydlu trefniadau'r cwmni newydd a chwblhau'r strwythurau llywodraethu, gan sicrhau cyngor cyfreithiol, ariannol a thechnegol allanol priodol fel bo'r angen (drwy ymgynghori â'r Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd ac Adnoddau);**

**10.3 dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ddatblygu cynllun busnes manwl ar gyfer Bwrdd Rhanddeiliaid arfaethedig y Cyngor.**

**CADEIRYDD** ________________ **DYDDIAD** ________________